

Archwilio Ein Byd

Arwyddion a Symbolau



Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon

Archwilio Ein Byd

Arwyddion a Symbolau

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO EIN BYD

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau, ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well. Gyda'i gilydd, maen nhw'n archwilio'r themâu poblogaidd, sef dathliadau, fi fy hun ac eraill, adegau a thymhorau, teithiau, pobl arbennig, ac arwyddion a symbolau.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer plant iau a phlant hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae chwe llyfr stori yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol (Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd). Teitlau'r chwe llyfr stori yw:

Plant 3 – 5 oed

- Dathliadau
- Fi fy hun ac Eraill
- Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed

- Teithiau
- Pobl Arbennig
- Arwyddion a Symbolau

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 154 o syniadau am weithgareddau a 11 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Ein Byd*

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eich ardal
- Holwch ynghylch rhyddau lle mae nentydd yn croesi'r ffyrdd

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs Aled a Siân gyda'r dyn sy'n sefyll wrth y giât
- Datblygwch gerdd am geir yn sbasio drwy'r rhyd (**Gweithgaredd 1**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- parc y castell
- rhyd

Datblygiad corfforol

- Meimiwch symudiadau a synau'r car yn mynd drwy'r rhyd
- Cerddwch i weld parc

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch giât drawiadol i gastell a dewiswch arwydd i'w arddangos arni
- Gwnewch fodel o'r rhyd

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch sut mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am eiddo
- Dysgwch am ryddau a chroesfannau dŵr mewn gwahanol rannau o'r byd

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o amser a fyddai'n ei gymryd i fynd i'r eiddo Ymddiriedolaeth Genedlaethol agosaf
- Pa mor ddwfn y gall rhyd fod er mwyn i gar allu teithio drwyddi'n ddiogel?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Y Rhyd

Ysgrifennwch gerdd am gar yn mynd drwy ryd.





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch safleoedd picnic yn eich ardal
- Chwiliwch am rai storïau clasurol am bicnics, er enghraifft stori Ratty a Mole yn *The Wind in the Willows*

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Chwaraewch rôl Aled a Siân yn sôn wrth eu ffrindiau am eu hymweliad â pharc y castell
- Ysgrifennwch neu adroddwch stori am fynd am bicnic

Datblygiad iaith Gymraeg

- picnic
- bwrdd

Datblygiad corfforol

- Ewch allan am bicnic
- Ewch ati i ymarfer gwneud brechdanau ar gyfer picnic

Datblygiad creadigol

- Crëwch safle picnic
- Gnewch arwydd ar gyfer safle picnic

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch arwyddion ar gyfer cadw eich gwlad yn daclus a thrafod pa mor bwysig yw hyn
- Dysgwch ynghylch pam mae pobl yn mynd am bicnic ac yn rhannu bwyd gyda'i gilydd

Datblygiad mathemategol






- Cyfrifwch faint o fwyd y byddech chi ei angen i bicnic ar gyfer 10 o bobl (**Gweithgaredd 2**)
- Faint o arwyddion mae Aled a Siân wedi eu gweld hyd yma?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Fy mhicnic – rhestr siopa





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Fe adeiladwyd eglwysi Cristnogol yng Nghymru a Lloegr gan nifer o wahanol enwadau
- Yn aml, mae pensaernïaeth nodedig yn perthyn i eglwysi gan gynnwys bwâu a ffenestri gothig

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Disgrifiwch yr eglwys yr aeth Peter a Mary i'w gweld
- Siaradwch am yr arwydd y mae Peter a Mary yn ei weld y tu allan i'r eglwys (y dyn yn golchi'r ffenestr) (**Gweithgaredd 3**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- eglwys
- Cristnogion

Datblygiad corfforol

- Ewch am dro i weld eglwys leol
- Dychmygwch mai eglwys yw eich dosbarth ac ewch â Peter a Mary o gwmpas i ddangos y lle iddyn nhw

Datblygiad creadigol

- Tynnwch luniau'r dyn yn golchi ffenestr yr eglwys
- Gwnewch gollage o luniau eglwysi


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae'r eglwys yn bwysig i Gristnogion?
- Sut mae gwahanol eglwysi yn eich ardal yn gweithio gyda'i gilydd?

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch pa mor bell y byddai'n rhaid i chi deithio i ddod o hyd i eglwys leol
- Faint o eglwysi sydd yn eich ardal leol?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Gofalu am yr eglwys

Pa weithgareddau sy'n dangos bod pobl yn gofalu am eu heglwys?



**golchi
ffenestri**



**torri'r
glaswellt**





Gofalu am yr eglwys

Pa weithgareddau sy'n dangos bod pobl yn gofalu am eu heglwys?

**glanhau'r
eglwys**

Ydych chi'n gallu meddwl am bethau eraill y mae pobl yn eu gwneud i ddangos eu bod yn gofalu am eu heglwys?



Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae dŵr yn arwydd pwysig i Gristnogion oherwydd sacrament y bedydd
- Mae bara a gwin yn arwyddion pwysig i Gristnogion oherwydd sacrament y cymun

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Siaradwch am beth sy'n digwydd mewn gwasanaeth bedydd, ac ysgrifennwch am hynny
- Siaradwch am y llun o'r bara a'r gwin ar yr allor

Datblygiad iaith Gymraeg

- bedydd
- cymun

Datblygiad corfforol

- Actiwch wasanaeth bedydd, gan ddal dol a'i bedyddio'n ofalus
- Yn ofalus, cariwch fara a gwin i'w rhoi ar yr allor

Datblygiad creadigol

- Gwnewch fedyddfaen i ddal dŵr ar gyfer bedydd (**Gweithgaredd 4**)
- Gwnewch gollage yn dangos allor gyda bara, gwin, canhwyllau a chroes

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch pam mae Cristnogion yn arfer bedyddio
- Rhewch wahoddiad i offeiriad ddod i siarad am y cymun

Datblygiad mathemategol

- Faint o blant yn eich dosbarth sydd wedi gweld gwasanaeth bedydd? Cyflwynwch y wybodaeth ar ffurf graff bloc neu ffurf arall
- Holwch ynghylch faint o bobl a ddywedodd eu bod yn Gristnogion yng nghyfrifiad 2011

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol








Gwnewch bedyddfaen

Mae sawl math o fedyddfaen. Edrych ar y lluniau ar y tudalen yma a dewiswch yr un rydych chi'n hoffi orau.

- Gwnewch fodel clai o'r fedyddfaen.
- Gadewch i'r model galedu.
- Paentiwch y model â glud gwyn PVA fel farnais.





Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Fe adeiladwyd synagogau yng Nghymru a Lloegr gan y gymuned Iddewig
- Yn aml, fe allwch chi adnabod synagog am fod Seren Dafydd arni

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Disgrifiwch y synagog yr aeth Nathan a Rachel i'w gweld
- Siaradwch am yr arwydd y mae Nathan a Rachel yn ei weld y tu allan i'r synagog (y ddynes yn tocio'r rhosod)

Datblygiad iaith Gymraeg

- synagog
- Iddewon

Datblygiad corfforol

- Meimiwch Nathan a Rachel yn cynllunio eu taith ac yn mynd arni
- Smaliwch fod yn arddwr y synagog a gofalu am yr ardd

Datblygiad creadigol

- Gwnewch offer garddio i arddwr y synagog eu defnyddio
- Casglwch luniau o synagogau a'u harddangos

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am ble y gwnaeth Iddewon setlo'n gyntaf yng Nghymru a Lloegr
- Holwch ynghylch pa mor bwysig yw Jerwsalem i Iddewon

Datblygiad mathemategol

- Sawl triongl ydych chi'n gallu eu canfod yn Seren Dafydd?
(Gweithgaredd 5)
- Pa mor bell i ffwrdd yw eich synagog agosaf?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Seren Dafydd

Sawl triongl ydych chi'n gallu eu canfod yn Seren Dafydd?





Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae stori Moses yn croesi'r Môr Coch yn arwydd pwysig i Iddewon
- Mae dathlu pryd bwyd y Pasg Iddewig yn bwysig i Iddewon

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Darllenwch stori Moses yn croesi'r Môr Coch
- Siaradwch am y lluniau yn y ffenestri lliw

Datblygiad iaith Gymraeg

- y Môr Coch
- pryd bwyd y Pasg Iddewig

Datblygiad corfforol

- Perfformiwch ddrama Moses yn croesi'r Môr Coch
- Paratowch bryd bwyd Pasg Iddewig gyda bwyd a diod chwarae

Datblygiad creadigol

- Gwnewch ffenestr liw am y Môr Coch
- Gwnewch gollage o'r pryd bwyd Pasg Iddewig

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch pam mae Iddewon yn dathlu pryd bwyd Pasg Iddewig
- Rhowch wahoddiad i Iddew ddod i siarad am y synagog

Datblygiad mathemategol

- Sawl darn o wydr sy'n gwneud y ffenestr liw ar dudalen 14, a sawl darn o wydr sydd ar gyfer pob lliw? (**Gweithgaredd 6**)
- Holwch ynghylch faint o bobl a ddywedodd eu bod yn Iddewon yng nghyfrifiad 2011

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol

Ymatebion
personol

Mewnwelediad



Cyfrif y gwydr lliw

Sawl darn o wydr sy'n gwneud ffenestr liw y Môr Coch?



Sawl darn o wydr ydych chi'n gallu eu cyfrif ar gyfer y lliwiau?



glas




melyn



oren



gwyrdd



Cymharwch y nifer o ddarnau o'r gwahanol liwiau gan ddefnyddio'r geiriau:

mwya

llai na

yr un faint â



Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Fe adeiladwyd mosgiau yng Nghymru a Lloegr gan y gymuned Fwslimaidd
- Yn aml, fe allwch chi adnabod mosg am fod ganddo gromen nodedig
(Gweithgaredd 7)

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Disgrifiwch beth mae Ahmed a Salma'n ei wisgo
- Siaradwch am yr arwydd y mae Ahmed a Salma'n ei weld y tu allan i'r mosg (pobl yn paratoi bwyd)

Datblygiad iaith Gymraeg

- mosg
- Mwslimiaid

Datblygiad corfforol

- Paratowch fwydydd dathlu i'w rhannu ag eraill
- Gwnewch ddrama yn ymwneud â rhannu bwydydd dathlu ag eraill

Datblygiad creadigol

- Gwnewch sgarffiau pen a hetiau ar gyfer Ahmed a Salma
- Gwnewch gollage o luniau o fosgiau

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch pam mae Ahmed a Salma'n gwisgo dillad steil Islamaidd
- Holwch ynghylch pa mor bwysig yw'r mosg i Fwslimiaid

Datblygiad mathemategol

- Sawl dynes sydd yn y llun ar dudalen 17?
- Pa mor bell i ffwrdd yw eich mosg agosaf?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Y Lleuad

Mae'r lleuad cilgant yn arwydd pwysig ar gyfer Islam. Fe welwch chi'r symbol lleuad cilgant ar fosciau, baneri, ac mewn sawl lle arall.




Mae'r lleuad yn edrych yn wahanol ar wahanol adegau o'r mis. Edrychwch ar y lluniau o'r lleuad. Caiff y rhain eu galw'n **gyfnodau (phases)**.

- Ydych chi'n gallu dod o hyd i gyfnod y lleuad sy'n rhan o'r symbol Islamaidd?
- Gwnewch eich dyddiadur lleuad eich hun drwy dynnu llun cyfnodau'r lleuad yn y bocsys islaw.

Newydd	Cilgant ar gynnydd	Chwarter cyntaf	Cefngrwm ar gynnydd	Llawn	Cefngrwm ar gil	Chwarter olaf	Cilgant ar gil

Fy nyddiadur lleuad			
Wythnos 1	Wythnos 2	Wythnos 3	Wythnos 4



Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae ddŵr yn bwysig i Fwslimiaid fel arwydd o wneud eu hunain yn lân cyn gweddïo
- Mae rhannu gyda'i gilydd yn arwydd o'r ŵyl Fwslimaidd Eid

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Disgrifiwch a thrafodwch y llun o'r teulu Mwslimaidd yn ystod Eid
- Cyfansoddwch gerdd am ddŵr, sblasio ac ymolchi (**Gweithgaredd 8**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- gweddi
- Eid

Datblygiad corfforol

- Meimiwch yr ymolchi y mae Mwslimiaid yn ei wneud cyn gweddïo
- Meimiwch y teulu'n gwledda yn ystod Eid yn y mosg

Datblygiad creadigol

- Gwnewch wledd o fwyd i'w rhannu
- Gwnewch gollage o wanhauol fwydydd ar gyfer Eid

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch pam mae Mwslimiaid yn dathlu Eid
- Rhewch wahoddiad i Fwslim ddod i siarad am y mosg

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch faint o ddŵr fyddai ei angen ar un person i ymolchi cyn gweddïo
- Holwch ynghylch faint o bobl a ddywedodd eu bod yn Fwslimiaid yng nghyfrifiad 2011


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Y Gerdd Ymolchi

Ysgrifennwch gerdd i helpu Ahmed a Salma gofio sut i ymolchi cyn gweddïo.





Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Fe adeiladwyd temlau yng Nghymru a Lloegr gan y gymuned Hindŵaidd
- Yn aml, fe allwch chi adnabod teml oherwydd ei phensaernïaeth addurnedig

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Disgrifiwch y deml Hindŵaidd yn y llun
- Siaradwch am yr arwydd y mae Rajeev a Meena yn ei weld y tu allan i'r deml (y ddynes yn cario bwyd)

Datblygiad iaith Gymraeg

- teml
- Hindŵiaid

Datblygiad corfforol

- Actiwch ymweliad â theml Hindŵaidd
- Cyflwynwch ddawns Hindŵaidd

Datblygiad creadigol

- Gwnewch arddangosfa o symbolau Hindŵaidd (fel yr un ar yr arwyddbost) (**Gweithgaredd 9**)
- Gwnewch gollage of luniau o demlau Hindŵaidd



Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Rhewch wahoddiad i Hindŵ ddod i siarad am y deml
- Holwch ynghylch pa mor bwysig yw'r deml i Hindŵiaid

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch faint o demlau Hindŵaidd
- Pa mor bell i ffwrdd yw eich teml Hindŵaidd agosaf?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol







Yr Om Hindwâidd

Mae'r **Om** yn symbol pwysig ar gyfer Hindwâeth. Mae wedi ei ysgrifennu yn yr iaith sy'n cael ei galw'n Sanskrit. Fe welwch chi'r Om y tu mewn a thu allan i deml Hindwâidd.

- Ydych chi'n gallu dweud Om?
- Ydych chi'n gallu copïo'r Om yn ofalus yn eich llawysgrifen orau?





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae Hindŵiaid yn offrymu dŵr ar eu hallor
- Mae Hindŵiaid yn rhannu bwyd wedi ei fendithio i ddathlu puja

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Disgrifiwch a thrafodwch y llun o'r duw Ganesh (ar dudalen 22)
- Darllenwch stori am Ganesh

Datblygiad iaith Gymraeg

- allor
- offeiriad

Datblygiad corfforol

- Meimiwch offrymu dŵr wrth yr allor Hindŵaidd
- Actiwch ddathlu puja

Datblygiad creadigol

- Gwnewch allor Hindŵaidd
- Gwnewch gollage o dduwiau a duwiesau Hindŵaidd


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwnewch rywfaint o 'prashad' (bwyd fyddai'n gallu cael ei offrymu ar allor) a'i rannu rhwng eich ffrindiau
- Rhowch wahoddiad i Hindŵ ddod i siarad am y deml

Datblygiad mathemategol

- Faint o dduwiau a duwiesau Hindŵaidd ydych chi'n gallu eu henwi? **(Gweithgaredd 10)**
- Holwch ynghylch faint o bobl a ddywedodd eu bod yn Hindŵiaid yng nghyfrifiad 2011

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Duwiau a duwiesau Hindŵaidd

Faint o dduwiau a duwiesau Hindŵaidd ydych chi'n gallu eu henwi?

Faint o dduwiau a duwiesau Hindŵaidd eraill ydych chi'n gallu dod o hyd iddyn nhw?



Krishna

Vishnu

Ganesh

Shiva

Lakshmi



Tudalen 24



Tudalen 25

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae Aled a Siân yn byw gyda llawer o arwyddion a symbolau o amrywiaeth crefyddol o'u cwmpas
- Mae amrywiaeth crefyddol yn cyfoethogi bywyd Aled a Siân

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Siaradwch ynghylch beth mae Aled a Siân wedi ei ddysgu oddi wrth eu ffrindiau
- Ysgrifennwch stori am gwrdd â phobl o wahanol grefyddau

Datblygiad iaith Gymraeg

- arwyddion
- ffrindiau

Datblygiad corfforol

- Actiwch y sgysiau rhwng Aled a Siân a'u ffrindiau
- Gwnewch bump arddangosfa o'r pum lle y bu'r ffrindiau'n ymweld â nhw ac yna ewch i weld yr arddangosfeydd rheini

Datblygiad creadigol

- Gwnewch set o bump arwyddbost a'u cyfeirio at yr arddangosfeydd
- Ysgrifennwch eiriau allweddol i'w gosod ar bob arddangosfa (**Gweithgaredd 11**)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Rhowch wahoddiad i bobl o bob un o'r pedair crefydd i ddod i gwrdd â'i gilydd ac i weld yr arddangosfa
- Archwiliwch beth sy'n gyffredin i'r pedair crefydd

Datblygiad mathemategol

- Lluniwch restr o'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu o'r llyfr a chyfrifwch faint o bethau sydd ar y rhestr
- Tynnwch lun o Aled a Siân a'r ffrindiau sy'n cael eu henwi yn y llyfr i gyd, a'u cyfrif

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Fy ngeiriau allweddol

Beth yw'r pethau pwysicaf ydych chi'n eu cofio yn y stori?





Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio'r cyfrifoldeb i warchod treftadaeth hanesyddol. Datblygiad mathemategol Cyfrifwch faint o amser a fyddai'n ei gymryd i fynd i'r eiddo Ymddiriedolaeth Genedlaethol agosaf.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio sut mae crefydd wedi dylanwadu ar ambell eiddo sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a sut mae hynny'n cael ei adlewyrchu ynddyn nhw. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch sut mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am eiddo.
---	--



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio stori bwydo'r pum mil yn Marc 6. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Chwiliwch am rai storïau clasurol am bicnics.
--	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam bod bwyta gyda phobl eraill a rhannu bwyd yn bwysig iawn mewn llawer o draddodiadau crefyddol. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Dysgwch ynghylch pam mae pobl yn mynd am bicnics ac yn rhannu bwyd gyda'i gilydd.
--	---



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio sut y gwnaeth gwahanol enwadau adeiladu eglwysi o wahanol steil yng Nghymru a Lloegr. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Fe adeiladwyd eglwysi Cristnogol yng Nghymru a Lloegr gan nifer o wahanol enwadau.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio arwyddocâd y ffenestri gothig i eglwysi Cristnogol. Datblygiad creadigol • Tynnwch luniau'r dyn yn golchi ffenestr yr eglwys.
---	--



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio eich profiad o wasanaeth bedydd a'ch ymateb iddo.
Maes dysgu	Datblygiad corfforol Actiwch wasanaeth bedydd, gan ddal dol a'i bedyddio'n ofalus.

Agwedd ar yr ystod	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio arwyddocâd bara a gwin mewn addoliad Cristnogol.
Maes dysgu	Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Siaradwch am y llun o'r bara a'r gwin ar yr allor.



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pam mae Jerwsalem yn bwysig i Iddewon. <i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Holwch ynghylch pa mor bwysig yw Jerwsalem i Iddewon.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio pa bryd y bydd Iddewon yn ymweld â'r synagog a sut mae hynny'n cael effaith ar eu bywyd. <i>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</i> Fe adeiladwyd synagogau yng Nghymru a Lloegr gan y gymuned Iddewig.
---	---




Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio eich ymateb personol i stori Moses yn croesi'r Môr Coch.
Maes dysgu	<i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Darllenwch stori Moses yn croesi'r Môr Coch a'i thrafod.

Agwedd ar yr ystod	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio pa mor bwysig yw pryd bwyd y Pasg Iddewig i Iddewon.
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Dysgwch pam mae Iddewon yn dathlu pryd bwyd y Pasg Iddewig.



Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod	Cael <i>mewnwelediad</i> i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio pam mae Mwslimiaid yn aml yn gwisgo mathau penodol o ddillad.	
Maes dysgu	<i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Disgrifiwch beth mae Ahmed a Salma'n ei wisgo.	

Agwedd ar yr ystod	Archwilio sut y mae crefydd wedi <i>dylanwadu</i> ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolerwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio pam mae Islam yn dylanwadu ar y math o ddillad y mae pobl yn eu gwisgo.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Dysgwch pam mae Ahmed a Salma'n gwisgo dillad steil Islamaidd.	



Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio pa mor bwysig i Fwslimiaid yw ymolchi cyn gweddïo. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mae dŵr yn bwysig i Fwslimiaid fel arwydd o wneud eu hunain yn lân cyn gweddïo.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio arwyddocâd yr Eid i Fwslimiaid. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch pam mae Mwslimiaid yn dathlu Eid.
---	--




Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod	Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio eich teimladau am y symbolau Hindŵaidd.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> Gwnewch arddangosfa o symbolau Hindŵaidd.	

Agwedd ar yr ystod	Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.	
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio beth sy'n bwysig i Hindŵiaid am y deml.	
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Rhowch wahoddiad i Hindŵddod i siarad am y deml.	



Tudalennau 22-23



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.


Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio rhywfaint o ddealltwriaeth Hindŵaidd am dduwiau a duwiesau.

Maes dysgu

Datblygiad mathemategol

- Faint o dduwiau a duwiesau Hindŵaidd ydych chi'n gallu eu henwi?



Agwedd ar yr ystod

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio arwyddocâd y puja i Hindŵiaid.

Maes dysgu

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Mae Hindŵiaid yn rhannu bwyd wedi ei fendithio i ddathlu puja.



Tudalennau 24-25

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. Archwilio eich ymateb personol i fyw mewn gwlad sydd ag amrywiaeth o grefyddau. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Mae Aled a Siân yn byw gyda llawer o amrywiaeth crefyddol o'u cwmpas.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio cyfrifoldeb crefyddau i barchu amrywiaeth crefyddol. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Rhowch wahoddiad i bobl o bob un o'r pedair crefydd i ddod i gwrdd â'i gilydd ac i weld yr arddangosfa.
---	--